Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Sirol Hen Heol
# Hen Heol
# Llanelli
# Sir Gaerfyrddin
# SA15 3HW

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:



Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk



Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**



**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 08/04/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Sirol Hen Heol yn Llanelli, yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng pedair ac un ar ddeg oed mewn wyth o ddosbarthiadau. Mae 186 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 22 o blant meithrin amser llawn. Mae'r ysgol yn cyflogi naw o athrawon amser llawn, gan gynnwys y pennaeth a phedwar athro rhan-amser.

Mae gan tua 26% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, ffigur sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol a'r cyfartaledd lleol. Mae tua 85% o'r disgyblion o darddiad ethnig gwyn Prydeinig, ac mae rhyw 90% yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf. Mae hyn yn cymharu â 98% adeg yr arolygiad diwethaf. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf. Nododd yr ysgol fod anghenion dysgu ychwanegol gan tua 21% o'r disgyblion. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Nifer fach iawn o waharddiadau dros dro a wnaed y llynedd.

Mae'r pennaeth presennol wedi bod yn ei swydd ers Ionawr 2009. Yn 2008 y cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf o'r ysgol, a chynhaliwyd ail-arolygid yn 2009 pan gafodd yr ysgol ei thynnu o'r categori gwelliant sylweddol.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Sirol Hen Heol yn 2013-2014 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,716 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £8,152 a'r lleiafswm yw £2,941. Mae Ysgol Gynradd Sirol Hen Heol yn safle 48 o'r 106 o ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Digonol |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da;
- mae safonau darllen yn dda;
- yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n dda at ystod o ddibenion ac ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol;
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso medrau meddwl yn dda i weithgareddau datrys problemau;
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn awyddus i ddysgu ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol mewn gwersi;
- mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o wasanaethau arbenigol;
- mae'r ysgol yn nodi disgyblion y mae angen help ychwanegol arnynt yn gynnar, ac yn darparu cymorth priodol iddynt; ac
- mae gan yr ysgol adnoddau o ansawdd da ac mae'n cynnal a chadw ei hadeiladau yn dda.

Fodd bynnag:

- mae ymddygiad ychydig o ddisgyblion yn tarfu ar ddysgu disgyblion eraill mewn lleiafrif o wersi;
- nid oes gan gyngor yr ysgol lais effeithiol yn yr ysgol; ac
- nid yw presenoldeb disgyblion yn cymharu'n dda â phresenoldeb ysgolion tebyg.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- mae gan y pennaeth a'r uwch arweinwyr weledigaeth sy'n uno pob un o'r staff;
- mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gweithio'n dda â'i gilydd;
- mae pob un o'r athrawon yn chwarae rhan weithredol yn arwain meysydd o fywyd yr ysgol;
- mae bron pob un o'r athrawon yn rhan o fonitro safonau;
- mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod dda o bartneriaid;
- mae cysylltiadau cadarn gyda'r clwstwr lleol o ysgolion, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar godi safonau; ac
- mae'r ysgol yn rheoli ei chyllideb yn effeithiol.

Fodd bynnag:

- nid yw'r trefniadau rheoli perfformiad yn ddigon cadarn;
- mae'r corff llywodraethol yn or-ddibynnol ar wybodaeth a ddarperir gan arweinwyr yr ysgol, ac o ganlyniad, nid ydynt yn gweithredu'n effeithiol fel ffrindiau beirniadol; ac
- nid yw gweithgareddau hunanarfarnu yn cael eu cynllunio'n systematig ac nid ydynt yn cysylltu'n ddigon da â chynlluniau gwella'r ysgol.

## Argymhellion

A1 Codi safonau Cymraeg disgyblion

A2 Gwella presenoldeb

A3 Cynllunio ar gyfer medrau ar draws y cwricwlwm fel eu bod yn adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion

A4 Gwneud yn siŵr bod gwersi yn symud ar gyflymder da a bod pob un o'r staff yn datblygu dull cyson o hyrwyddo ymddygiad da

A5 Datblygu rôl y corff llywodraethol fel ffrind beirniadol

A6 Gwneud yn siŵr bod cynllun gwella'r ysgol wedi'i seilio ar ganlyniadau gweithdrefnau hunanarfarnu cadarn

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae asesiad gwaelodlin yr ysgol yn dangos bod llawer o ddisgyblion, pan fyddant yn cychwyn yn yr ysgol, yn meddu ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau ar y lefel a ddisgwylir am eu hoed. Yn gyffredinol, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u man cychwyn.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o'r disgyblion yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac ar oedolion. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn awyddus i siarad am eu gwaith ac mae llawer ohonynt yn ateb cwestiynau gan ddefnyddio manylder addas. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn mynegi eu barnau'n hyderus gan ddefnyddio geirfa sydd wedi'i datblygu'n dda, er enghraifft wrth drafod ynglŷn â gwahardd bwyd sothach ai peidio.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn defnyddio eu medrau ffonig yn dda i'w helpu i ddatgodio geiriau newydd ac anghyfarwydd. Mae disgyblion mwy galluog yn darllen yn rhugl a gyda mynegiant. Maent yn trafod gwaith eu hoff awdur ac yn nodi digwyddiadau allweddol mewn stori. Maent yn darogan yn synhwyrol beth fydd yn digwydd nesaf gan ddefnyddio gwybodaeth y maent eisoes wedi'i darllen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn trafod y cymeriadau a'r cynllun yn eu llyfr yn briodol o fanwl. Mae ganddynt fedrau dealltwriaeth sydd wedi'u datblygu'n dda, ac mae'r rhain yn eu helpu i ddarllen gyda dealltwriaeth. Mae medrau ymchwilio effeithiol gan y disgyblion hŷn, mwy galluog. Maent yn defnyddio mynegai ac yn brasddarllen a sgimio testun yn effeithlon i ddod o hyd i wybodaeth yn gyflym.

Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn cynhyrchu darnau o waith ysgrifenedig byr gan ddefnyddio'u gwybodaeth am ffoneg i'w helpu i sillafu geiriau cyffredin yn gywir. Defnyddiant briflythrennau ac atalnodau llawn yn gywir wrth atalnodi eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn gyffredinol yn ysgrifennu'n dda yn estynedig, nac yn defnyddio geirfa amrywiol i gynnal diddordeb y darllenydd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni safonau da yn eu hysgrifennu. Cynhyrchant ddarnau o waith ysgrifennu estynedig gyda strwythur clir ar draws ystod o bynciau. Mae llawer ohonynt yn defnyddio geirfa sydd wedi'i datblygu'n dda, ac atalnodi cywir. Yn gyffredinol, mae eu gwaith yn daclus ac wedi'i gyflwyno'n dda.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn gwersi mathemateg. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu ac yn trefnu rhifau i fyny at gant yn gywir, maent yn gwybod y tablau lluosi dau, pump a deg, yn adio ac yn tynnu rhifau dau ddigid yn gywir, yn mesur hydoedd gan ddefnyddio metrau a chentimetrau yn gywir ac yn cofnodi data mewn ystod o graffiau a thablau. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau yn effeithiol wrth ddatrys problemau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn gwersi mathemateg. Defnyddiant ystod o strategaethau i gofio tablau lluosi a defnyddiant y wybodaeth hon i ddatrys problemau yn llwyddiannus. Maent yn gwneud amcangyfrifon cywir trwy dalgrynnu rhifau degol i'r cyfanrif agosaf, a defnyddiant ystod o offer a graddfeydd i fesur yn hyderus. Mae'r disgyblion mwy galluog yn gwneud ymdrechion da i gymhwyso eu gwybodaeth fathemategol i weithgareddau datrys problemau. Nid yw lleiafrif, fodd bynnag, yn cyflwyno'u gwaith yn glir ac mae hyn yn arwain at anghywirdebau wrth ddehongli canlyniadau, yn enwedig wrth ddefnyddio graffiau. Ar draws y cyfnod allweddol, mae disgyblion yn dechrau cymhwyso'u medrau rhifedd ar yr un lefel mewn pynciau eraill.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso medrau meddwl yn dda at ystod o broblemau a sefyllfaoedd. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau dysgu Cymraeg. Dangosant ddealltwriaeth dda o'r iaith, ond mae'r rhan fwyaf yn llai hyderus wrth siarad. Mae mwyafrif yn defnyddio Cymraeg yn hyderus yn ystod gwersi Cymraeg ac yn gwneud cynnydd da. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio Cymraeg yn ystod cyfnodau cofrestru, ond ychydig iawn sy'n mynd ati i ddefnyddio'r iaith mewn cyd-destunau eraill.

Yn gyffredinol, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol yn gwneud cynnydd da.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg, mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen wedi gwella o ran y deilliant 5 disgwyliedig. Yn 2013, rhoddodd hyn yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar gyfer medrau llythrennedd a mathemategol. Ar y deilliant 6 uwch na'r disgwyl, mae medrau llythrennedd wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf am y ddwy flynedd diwethaf, a naill ai yn y 25% uchaf neu'r 50% uwch ar gyfer medrau mathemategol.

Yng nghyfnod allweddol 2, ar y lefel 4 ddisgwyliedig, mae tuedd gyffredinol o welliant dros y pedair blynedd diwethaf mewn mathemateg ac yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd. Mae'r patrwm ar gyfer Saesneg a gwyddoniaeth yn fwy amrywiol. Fodd bynnag, mae deilliannau'r disgyblion wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf neu'r 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg dros y ddwy flynedd diwethaf. O ran y lefel 5 uwch na'r disgwyl, mae'r patrwm yn amrywio mwy, yn enwedig mewn mathemateg. Yn 2013, mae deilliannau'r disgyblion yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf ar gyfer Saesneg a mathemateg, ac yn y 50% is ar gyfer gwyddoniaeth.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn gwybod pwy i ddweud wrthynt os oes ganddynt bryderon, ac maent yn teimlo'n hyderus bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw ddigwyddiadau o fwlio. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn awyddus i ddysgu ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol yn eu gwersi. Mae bron pob un ohonynt yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol. Fodd bynnag, mae ymddygiad nifer fach iawn o ddisgyblion yn tarfu ar ddysgu disgyblion eraill mewn lleiafrif o wersi.

Mae dealltwriaeth dda gan y rhan fwyaf o'r disgyblion o sut i gadw'n iach trwy fwyta diet iach a gwneud digon o ymarfer corff.

Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn etholiadau i ethol eu cyfoedion i gyngor yr ysgol ac i rôl llysgenhadon yr ysgol. Mae'r disgyblion sy'n cael eu hethol yn cymryd eu rolau o ddifrif. Er enghraifft, yn ddiweddar fe wnaethant nodi'r angen am adnoddau darllen ychwanegol, ac maent wedi ysgrifennu at y pennaeth ynglŷn â hyn. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol wedi gweithredu ar eu hawgrym hyd yma. Mae'r cyngor eco wedi'i sefydlu'n dda. Mae'r aelodau yn gyfrifol am drefnu a rhedeg siop fwyd yr ysgol. Maent hefyd yn cynnal a chadw gardd yr ysgol yn dda. Drwy eu rolau fel swyddogion etholedig yr ysgol, cânt effaith gadarnhaol ar ethos yr ysgol. Maent yn cynnig modelau rôl cadarnhaol ac yn cynnig cymorth ac arweiniad i ddisgyblion iau.

Mae lefel bresenoldeb yr ysgol yn peri pryder. O gymharu ag ysgolion tebyg dros y tair blynedd ddiwethaf, mae lefel bresenoldeb yr ysgol yn ei gosod yn y 25% isaf. Yn 2013, tua 91% oedd presenoldeb yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon. Mae llawer ohonynt yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at fywyd y gymuned, fel canu mewn cartrefi preswyl lleol, trefnu i gasglu sbwriel a chasglu rhoddion i'r banc bwyd lleol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys i ddisgyblion sy'n bodloni'r gofynion statudol. Fodd bynnag, mae'r amser addysgu yng nghyfnod allweddol 2 yn disgyn islaw'r lefelau a argymhellir gan Lywodraeth Cymru.

Mae cynlluniau'r athrawon yn berthnasol i anghenion disgyblion, ac yn dilyn cylch dwy flynedd. Fodd bynnag, mae'r athrawon yn dibynnu'n drwm ar gynlluniau cyhoeddedig, ac nid ydynt bob amser yn addasu gwaith yn ddigon da nac yn cynnwys disgyblion mewn penderfyniadau ynglŷn â beth maent yn ei ddysgu. Wrth gynllunio gwersi unigol, mae'r athrawon yn mynd ati'n briodol i nodi'r medrau y maent eisiau eu datblygu, ond nid oes fframwaith yn ei le i sicrhau eu bod yn adeiladu'n systematig ar fedrau blaenorol disgyblion.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o ymweliadau i alluogi disgyblion i gymhwyso'u dysgu. Er enghraifft, byddant yn ymweld ag archfarchnad leol i gymharu prisiau ac i gynllunio basged siopa iach ar gyfer cyllideb a gytunwyd. Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o gyfleoedd dysgu allgyrsiol priodol sy'n ategu ac yn gwella profiadau dysgu'r disgyblion yn dda.

Mae'r cynllun gwaith ar gyfer Cymraeg a gyflwynwyd yn ddiweddar yn rhoi cyfeiriad clir ac yn adeiladu ar ddysgu blaenorol yn llwyddiannus. Nid yw'r rhan fwyaf o'r disgyblion, fodd bynnag, yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau iaith y tu allan i wersi Cymraeg. Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau diddorol i ddatblygu dealltwriaeth o Gymru a'i thraddodiadau. Mae astudio artistiaid o Gymru yn un o gryfderau'r ysgol. Mae'r disgyblion yn cynhyrchu gwaith celf o ansawdd uchel mewn ymateb i astudiaethau o waith artistiaid gwahanol o Gymru.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymwybodol o faterion yn ymwneud â datblygu cynaliadwy, fel ailgylchu ac arbed trydan. Megis dechrau cael ei datblygu y mae eu dealltwriaeth ehangach yn y maes hwn, fodd bynnag. Maent yn cael cyfleoedd addas i ddatblygu eu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysgu: Digonol**

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio ystod o weithgareddau ysgogol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Maent yn fodelau iaith da i ddisgyblion, ac mae llawer ohonynt yn defnyddio techneg holi fedrus i helpu disgyblion ddeall a datblygu eu medrau meddwl a chyfathrebu. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn cynnig lefel her addas i ddisgyblion yn unol â'u hoed a'u gallu. Bydd staff cymorth yn gweithio'n fedrus ochr yn ochr ag athrawon i alluogi disgyblion wneud cynnydd da. Yn gyffredinol, mae gan athrawon berthynas gadarnhaol a chefnogol â disgyblion. Mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, fodd bynnag, nid ydynt yn rheoli eu hymddygiad yn effeithiol. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn yr ychydig o ddosbarthiadau lle nad oes rhediad da i'r gwersi. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn colli diddordeb ac yn mynd yn aflonydd.

Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn nodi'r hyn maent wedi'i wneud yn dda a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Mae disgyblion yn dechrau ymateb i'r sylwadau hyn, ond megis dechrau cael ei ddatblygu y mae hyn. Yn ogystal, mae targedau gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ar gyfer llythrennedd, rhifedd a datblygiad personol. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif o ddisgyblion yn gwybod beth yw eu targedau, ac o ganlyniad, nid ydynt yn effeithio'n gadarnhaol ar gynnydd disgyblion. Caiff disgyblion hŷn cyfnod allweddol 2 gyfleoedd da i asesu eu dysgu eu hunain, ac maent yn dechrau asesu gwaith disgyblion eraill yn effeithiol.

Mae athrawon yn defnyddio ystod eang o ddata asesu disgyblion i olrhain cynnydd unigol yn effeithiol. Mae eu hasesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn gywir. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn glir ac yn llawn gwybodaeth. Nodant beth sydd angen i ddisgyblion ei wneud i wella eu gwaith.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae awyrgylch gofalgar yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn darparu'n dda ar gyfer datblygiad moesol, cymdeithasol, diwylliannol ac ysbrydol disgyblion. Trwy wasanaethau boreol a gwersi medrau personol a chymdeithasol, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth briodol o'r da a'r drwg, ac yn eu helpu adeiladu perthnasoedd cadarnhaol gyda disgyblion eraill. Gwna'r ysgol drefniadau addas ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae systemau a gafodd eu gwella'n ddiweddar i fonitro a hyrwyddo presenoldeb a phrydlondeb yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar wella presenoldeb disgyblion.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod briodol o asiantaethau arbenigol i ddarparu cymorth i ddisgyblion. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd da o'r gwasanaethau hyn i sicrhau bod disgyblion yn cael arweiniad ar faterion perthnasol, fel peryglon cyffuriau, alcohol ac effaith seiberfwlio.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae gweithdrefnau addas ar waith i sicrhau bod yr ysgol yn nodi disgyblion y mae angen cymorth arnynt yn gynnar ac yn darparu'n dda ar gyfer eu hanghenion. Defnyddir gwybodaeth asesu yn effeithiol gan y staff i ddatblygu cynlluniau addysg unigol sy'n cynorthwyo cynnydd disgyblion yn briodol. Mae'r ysgol yn cynnwys rhieni yn addas yn y broses hon.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn peri rhywfaint o bryder. Mae'r rhan fwyaf o staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau cywir. Nid yw dogfennau polisi yn adlewyrchu'r rhain yn gywir, fodd bynnag.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae pob un o'r disgyblion yn cael mynediad cyfartal i holl feysydd y cwricwlwm. Mae ethos cynhwysol yr ysgol yn cydnabod, yn parchu ac yn dathlu amrywiaeth yn llwyddiannus.

At ei gilydd, mae'r adeilad yn dda. Mae'n cynnig digon o le ac mae wedi'i addurno a'i gynnal a'i gadw'n dda drwyddo draw. Mae'r arddangosfeydd lliwgar a deniadol yn dathlu cyflawniadau disgyblion ac yn hyrwyddo dysgu yn effeithiol. Ar y tu allan, mae'r ysgol wedi gwneud y defnydd gorau o ofod anodd, ac o ganlyniad, cynigir cyfleoedd da i'r holl ddisgyblion weithio a chwarae yn yr awyr agored.

Ceir adnoddau dysgu o ansawdd da ar draws yr holl bynciau. Yn ddiweddar, cafodd yr ysgol ystod helaeth o adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ychwanegol y mae staff yn dechrau eu defnyddio'n effeithiol ar gyfer addysgu a dysgu. Mae ystod addas o lyfrau darllen yn cefnogi datblygu llythrennedd yn briodol, ond mae rhywfaint o'r deunyddiau cyfeirio yn hen.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan y pennaeth ac uwch arweinwyr weledigaeth sy'n uno pob un o'r staff. O ganlyniad, mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gweithio'n dda â'i gilydd. Chwaraeir rhan weithredol gan bob un o'r athrawon yn arwain meysydd o fywyd yr ysgol. Mae gan yr ysgol strwythur rheoli addas ac mae swydd-ddisgrifiadau clir gan y staff sy'n adlewyrchu'u rolau a'u cyfrifoldebau yn gywir.

Caiff perfformiad pob un o'r staff ei reoli'n flynyddol. Mae hyn yn nodi targedau unigol a thargedau'r ysgol yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau i fonitro perfformiad staff trwy gydol y flwyddyn yn ddigon trwyadl, ac nid yw ystod o gamau diweddar wedi cael effaith ddigon cadarnhaol ar wella darpariaeth a lles.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i'r ysgol ac yn ymgymryd â'u rolau yn gydwybodol. O wybodaeth a ddarperir gan arweinwyr yr ysgol, mae ganddynt ddealltwriaeth addas o'r safonau y mae'r ysgol yn eu cyflawni a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella. Fodd bynnag, nid ydynt yn chwarae rhan ddigonol yn monitro safonau nac yn cynllunio ar gyfer gwella. Maent yn or-ddibynnol ar wybodaeth a ddarperir

gan yr ysgol ac mae hyn yn effeithio ar eu gallu i weithredu'n llwyddiannus fel ffrindiau beirniadol.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd priodol o ran gweithredu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Fodd bynnag, mae trefnu'r fenter llythrennedd ysgol gyfan yn lleihau cyfleoedd ar gyfer dysgu gweithredol yn y Cyfnod Sylfaen.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae uwch arweinwyr yn ymgymryd ag ystod o weithgareddau hunanarfarnu sy'n eu galluogi i fonitro meysydd o waith yr ysgol yn foddhaol. Mae bron pob un o'r athrawon wedi chwarae rhan yn arfarnu safonau disgyblion a meysydd darpariaeth yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi'i drefnu'n systematig ac nid yw wedi bod yn ddigon cadarn o ran nodi meysydd i'w gwella. Er enghraifft, ni wnaeth yr ysgol nodi'r angen i wella safonau Cymraeg. Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn rhoi disgrifiad cywir o fywyd yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'n arfarnu effaith camau gweithredu nac yn nodi meysydd i'w gwella yn ddigon da.

Mae'r staff yn gweithio gyda'i gilydd fel tîm i ddatblygu cynllun gwella'r ysgol sy'n canolbwyntio'n briodol ar wella medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion a gwella presenoldeb. Mae nifer addas o amcanion yn y cynllun. Mae'n cynnwys manylion priodol am gamau gweithredu, pwy sy'n eu harwain a graddfeydd amser. Nid yw'r arweinwyr, fodd bynnag, yn canolbwyntio cynlluniau gwella ar ganlyniadau hunanarfarnu'n ddigon da. Nid ydynt yn monitro ac yn arfarnu'r cynllun yn rheolaidd i sicrhau bod cynnydd addas tuag at dargedau. O ganlyniad, nid yw cynlluniau blaenorol wedi llwyddo bob tro i gyflawni'r gwelliannau a ddymunir.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod dda o bartneriaid. Mae hyn yn helpu datblygu cysylltiadau effeithiol gyda'r gymuned leol sy'n fuddiol i ddisgyblion yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn trefnu gweithdai iaith a chwarae sy'n agored i rieni disgyblion iau. Yn y sesiynau hyn, defnyddir storïau adnabyddus plant i ddarparu strategaethau addysgu i rieni y gallant eu defnyddio i ddatblygu dysgu eu plant. Mae'r ysgol yn cynnal grŵp wythnosol 'ti a fi' ar gyfer rhieni a phlant cyn oed ysgol. Mae hwn yn cynnig adnodd cymunedol defnyddiol sy'n datblygu medrau dysgu cynnar plant. Hefyd, mae'n cynorthwyo pontio hwylus i'r disgyblion pan fyddant yn cychwyn yn yr ysgol.

Mae'r ysgol a'r disgyblion yn elwa ar gysylltiadau da gydag asiantaethau cymorth fel gwasanaeth yr heddlu a nyrs yr ysgol. Darparant gymorth ac arweiniad pwysig i'r disgyblion, fel gwybodaeth am ddiogelwch ar y rhyngrwyd ac addysg iechyd a rhyw.

Ceir cysylltiadau cadarn gyda'r clwstwr lleol o ysgolion. Mae'r ysgolion yn cyfuno arian grant i wella rheoli adnoddau ac i'w galluogi i ddatblygu strategaethau i weithredu ystod o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae rhannu cronfeydd ariannol wedi galluogi grŵp o staff o'r clwstwr i ddatblygu strategaethau i wella deilliannau ar gyfer disgyblion mwy galluog.

Mae'r ysgol yn rheoli cyfnod pontio disgyblion i'r ysgol uwchradd yn effeithiol. Mae hyn yn paratoi disgyblion yn dda ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu dysgu.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r corff llywodraethol a'r pennaeth yn rheoli ac yn monitro cyllid yr ysgol yn dda. Mae hyn yn galluogi'r ysgol i ddyrannu cyllid yn effeithlon a thargedu adnoddau at feysydd a nodwyd ar gyfer eu gwella. Mae rhannu adnoddau gyda'r clwstwr o ysgolion lleol yn cynnig gwerth da am arian am ei fod yn cyfrannu at safonau da ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion.

Mae trefniadau addas gan yr ysgol sy'n rhoi cyfle i staff rannu arbenigedd ac arfer dda â'i gilydd. Defnyddir staff addysgu a staff cymorth yn effeithiol, a gwna'r ysgol ddefnydd da iawn o arbenigedd y staff wrth lenwi bwlch yn ystod amser cynllunio, paratoi ac asesu'r athrawon. Caiff y staff ystod briodol o hyfforddiant sy'n sicrhau bod yr arbenigedd angenrheidiol ganddynt i gyflawni eu rolau'n foddhaol.

O ystyried y safonau a gyflawnir gan y rhan fwyaf o'r disgyblion, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn 2013 yn y Cyfnod Sylfaen, fe wnaeth rhyw 95% o ddisgyblion gyflawni'r deilliant disgwyliedig mewn perthynas â datblygu eu medrau llythrennedd, eu medrau mathemategol a'u datblygiad personol a chymdeithasol o'u cyfuno (dangosydd y Cyfnod Sylfaen). Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu ac ysgolion yng Nghymru. O'u hystyried ar wahân, llwyddodd pob un o'r disgyblion i gyflawni'r deilliant disgwyliedig mewn datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliant uwch na'r disgwyl uwchlaw'r cyfartaleddau ar gyfer y teulu a Chymru o ran medrau llythrennedd a mathemategol. Ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol, mae canlyniadau yn gyson â chyfartaledd y teulu ond yn is na chyfartaledd Cymru.

Yn 2013 o gymharu ag ysgolion tebyg, fe wnaeth deilliannau'r ysgol ei gosod yn y 25% uchaf ar gyfer medrau llythrennedd, medrau mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol o ran y deilliant disgwyliedig. O ran y deilliant uwch na'r disgwyl, mae canlyniadau yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf ar gyfer medrau llythrennedd, y 50% uwch ar gyfer medrau mathemategol a'r 50% is ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol.

Yn gyffredinol, nid yw perfformiad bechgyn gystal â'r merched. Mae'r gwahaniaeth yn eu perfformiad, fodd bynnag, yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartaleddau ar gyfer y teulu a Chymru, ac eithrio mathemateg o ran y deilliant uwch na'r disgwyl.

Nid yw disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio gystal â'r disgyblion hynny nad oes ganddynt hawl i brydau ysgol am ddim o ran datblygu eu medrau llythrennedd a mathemategol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig neu uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth (y dangosydd pwnc craidd) yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu a Chymru.

Yn 2013, o'i chymharu ag ysgolion tebyg, mae'r ysgol yn y 50% uwch ar gyfer Saesneg a gwyddoniaeth, ac yn y 35% uchaf ar gyfer mathemateg. Mae canlyniadau'r ysgol yn ei gosod yn y 25% uchaf ar gyfer y dangosydd pwnc craidd.

Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel uwch na'r disgwyl mewn Saesneg a mathemateg uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu a Chymru. Ond mae gwyddoniaeth yn cymharu'n llai ffafriol ac mae canlyniadau'r ysgol islaw'r cyfartaleddau ar gyfer y teulu a Chymru yn 2013. Ar y lefel uwch, mae perfformiad yr ysgol o'i gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg yn ei gosod yn y 25% uchaf ar gyfer Saesneg a mathemateg, ac yn y 50% is ar gyfer gwyddoniaeth.

Nid yw disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio gystal â'r disgyblion hynny nad oes hawl ganddynt i brydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, mae'r bwlch mewn perfformiad wedi bod yn lleihau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Holiadur Cynradd (Yn Gyffredinol)

mae'n dynodi'r meincnod – hwn yw cyfanswm yr holl ymatebion ers Medi 2010.

| | | Number of responses Nifer o ymatebion | | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | | 103 | | 103<br>100% | 0<br>0% | | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | | | 98% | 2% | | |
| The school deals well with any bullying. | | 103 | | 93<br>90% | 10<br>10% | | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | | | 92% | 8% | | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | | 103 | | 100<br>97% | 3<br>3% | | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | | | 97% | 3% | | |
| The school teaches me how to keep healthy | | 103 | | 102<br>99% | 1<br>1% | | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | | | 98% | 2% | | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | | 103 | | 95<br>92% | 8<br>8% | | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | | | 96% | 4% | | |
| I am doing well at school | | 103 | | 103<br>100% | 0<br>0% | | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | | | 96% | 4% | | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | | 103 | | 102<br>99% | 1<br>1% | | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | | | 99% | 1% | | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | | 103 | | 100<br>97% | 3<br>3% | | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | | | 98% | 2% | | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | | 103 | | 91<br>88% | 12<br>12% | | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | | | 91% | 9% | | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | | 103 | | 98<br>95% | 5<br>5% | | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | | | 95% | 5% | | |
| Other children behave well and I can get my work done. | | 103 | | 64<br>62% | 39<br>38% | | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | | | 77% | 23% | | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | | 103 | | 75<br>73% | 28<br>27% | | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | | | 84% | 16% | | |

# Ymateb i'r holiadur i rieni

mae'n dynodi'r meincnod – hwn yw cyfanswm yr holl ymatebion ers Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 26 | 17 | 9 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 65% | 35% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 26 | 21 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 26 | 20 | 6 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 25 | 12 | 13 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 48% | 52% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 26 | 11 | 11 | 3 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 42% | 42% | 12% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 26 | 17 | 9 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 65% | 35% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 26 | 19 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 26 | 11 | 14 | 1 | 0 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 42% | 54% | 4% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 26 | 19 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 26 | 18 | 7 | 1 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 69% | 27% | 4% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 26 | 21 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 26 | 14 | 11 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 54% | 42% | 4% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 26 | 16 | 10 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 62% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 26 | 17 | 8 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 65% | 31% | 4% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 26 | 14 | 11 | 0 | 0 | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 54% | 42% | 0% | 0% | | |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 26 | 15 | 11 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 42% | 0% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 25 | 13 | 10 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 26 | 11 | 12 | 3 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 42% | 46% | 12% | 0% | | |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 26 | 13 | 13 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 50% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Jane Rees | Arolygydd Cofnodol |
| Andrew Thorne | Arolygydd Tîm |
| Janet Elizabeth Rowlands | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Katherine Elinor Olsen | Arolygydd Cymheiriaid |
| Non Neave | Enwebai’r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.